Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 50** **Calan 2020**



## I mi, Crist yw byw

## *Golwg 20/20*

Cyn i mi fynd dim pellach, gadewch i mi ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch sy'n darllen Gair o'r Garn. Fe fyddwch yn deall yn syth o ddarllen y geiriau canlynol fy mod wedi ysgrifennu'r cyfarchiad hwn hyd yn oed cyn i'r etholiad gael ei gynnal.

Efallai y bydd rhai ohonoch yn amheus a oes ystyr i gyfarchiad o'r fath eleni am fod pryder yn llenwi'ch gorwelion wrth wynebu 2020.

Rhoddodd dathliadau'r Dolig ysbaid i ni i gyd rhag peidio â gwrando ar grŵn Brecsit, newyddion am doriadau ac addewidion etholiadol.

Ond ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd bydd yr amgylchiadau ar lawr gwlad, yn economaidd, yn wleidyddol ac yn gyfreithiol i gyd fel wal ar draws llwybrau'r breuddwydion. Bydd trafodaethau gyda'r Undeb Ewropeaidd yn ailgychwyn.

Ac os bydd Mr Johnson yn parhau'n Brif Weinidog, bydd "dyddiad ymadael heb gytundeb" newydd ar y gorwel ar ddiwedd y flwyddyn. Un peth sy'n sicr: nid cwblhau ond dechreuad ar gyfnod maith o drafodaethau astrus fydd y camau sy'n ein hwynebu.

Os bydd Mr Corbyn yn Brif Weinidog, fe fydd trafodaethau newydd, a phenderfyniadau newydd i'w gosod gerbron y cyhoedd, a bydd hyn yn ei dro yn ddechrau ar gyfnod o drafod pellach yn Ewrop ac yng ngwledydd Prydain. A beth fydd tynged Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn sgil hyn i gyd? Pwy a ŵyr?

Bydd ein gwerthoedd, ein cyfeiriad, ein cymeriad a'n dyheadau'n cael eu diffinio gan y naratif cymysglyd hwn. Ac er mai dyma'r seiniau syrffedus fydd yn llenwi rhaglenni teledu a radio am fisoedd i ddod, rywsut, yng nghanol hyn i gyd, bydd yn ofynnol i'r genhedlaeth sy'n codi ddarganfod ei gwerthoedd, a chanfod ffordd i leisio'i dyheadau ei hun.

Ar lefel genedlaethol, yn lleol ac yn fyd-eang, mae her cynhesu byd-eang, a pherygl difodiant rhywogaethau, fforestydd a chymunedau yn golygu na allwn fel cenedl, fel byd, oedi'n hwy i rwystro'r rhaib difaol hwn.

Diau y bydd rhai pobl hunanol yn dweud, "Twt! Lol! Does dim llawer o ots gen i am gynhesu byd-eang cyn diwedd y ganrif. Fydda i ddim yna i'w weld, na'i brofi!" Ond fe fydd ein plant, ac yn sicr ein hwyrion, yn gorfod byw gyda'r tensiynau gwleidyddol a'r rhyfeloedd anorfod a ddaw wrth i genhedloedd ymgodymu â'i gilydd i sicrhau eu canran o'r adnoddau prin. Oni fyddwn yn newid ein ffyrdd fel hil, fel cenhedlaeth, heddiw, ein plant a'n hwyrion fydd yn gorfod wynebu'r llanast dyngarol a chymdeithasol a ddaw yn ei sgil.

Mae ein diffyg gofal am fyd Duw yn galw arnom i edifarhau. Golyga hynny nid yn unig gydnabod cam, neu fai. Golyga hefyd benderfyniad i weithredu mewn ffordd amgylchedd-gyfeillgar. Mae'r alwad arnom fel unigolion, fel capeli, fel cymunedau, fel cenedl, fel hil, i newid ein ffyrdd a'r canlyniadau gwallgof!

Wrth droi ein golygon tuag at ddyfodol bywyd ein heglwysi, gwyddom fod penderfyniadau anodd yn wynebu cynulleidfaoedd ledled Cymru. Wrth i gyfeillion heneiddio ac i niferoedd ein haelodau edwino ac wrth i afael y secwlareiddio cynyddol ddifa'r drefn a etifeddwyd gennym, mae'n anorfod, os ydym am barhau i fod yn ffyddlon i'r Arglwydd Iesu Grist, y byddwn yn cael ein gorfodi i ail-greu tystiolaeth Gristnogol berthnasol i'n dydd.

Os yw'r pry yn y pren yn wleidyddol, yn amgylcheddol, ac yn ein cyfundrefnau crefyddol, a oes unrhyw beth y gallwn ei ddweud sy'n cynnig gobaith?

Yn y grŵp trafod *Gwreiddiau* sy'n cyfarfod ar fore Iau buom yn edrych ar eiriau'r Apostol Paul wrth iddo gyfarch eglwys fechan, fach, yn Philipi. O bersbectif dynol nid oedd ganddi fawr o'i phlaid a holl gyfundrefn y wladwriaeth, a'r aml grefyddau, arferion oes, moesau a chred yn wrthwynebus iddi.

Er hyn gallai'r Apostol Paul weddïo dros ei aelodau, y byddai eu:

> cariad (yn cynyddu) fwyfwy eto mewn gwybodaeth a phob dirnadaeth, er mwyn ichwi allu cymeradwyo'r hyn sy'n rhagori, a bod yn ddidwyll a didramgwydd erbyn Dydd Crist, yn gyflawn o ffrwyth y cyfiawnder sy'n dod trwy Iesu Grist, er gogoniant a mawl i Dduw.

Dyma weledigaeth ryfeddol am "gorff" nad yw'n dibynnu ar ei adnoddau daearol ei hun am ei barhad ond yn hytrach "trwy Iesu Grist". Canlyniad ymarferol y disgwyliad am ddyfodiad "Dydd Crist" yw y bydd bywydau gonest a glân (didwyll, didramgwydd, a chyfiawnder mewnol ac allanol) yn nodweddu ei aelodau. Ac yn nod ac yn amcan i'w holl fywyd, yn ei hanfod, ym mhob rhan, ac ym mhob gweithgarwch, bydd yr awydd angerddol i ddwyn gogoniant a mawl i Dduw.

Mewn gwirionedd y mae corff o'r fath yn anorchfygol.

Bydd llawer o bethau fydd y tu hwnt i'n rheolaeth ni yn dod i'n rhan eleni. Ond ni ddylem amau mai'r angen pennaf ar ein byd, ein cymunedau a'n pentrefi yw eglwys sy'n ymdebygu i'r darlun godidog hwn.

Blwyddyn Newydd Dda!
*Watcyn James*

# Tudalen y Plant

## 11 NEWYDDION DA

Atebwch y cwestiynau, a chroeswch allan lythyren gyntaf pob ateb ar y grid. Fe fydd y llythrennau sy ar ôl, yn eu trefn, yn sillafu dau air sy'n gysylltiedig â'r Nadolig.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Th | Ll | I | D | A |
| W | O | E | N | H |
| J | Y | Ch | Ff | Dd |
| G | S | M | T | A |
| C | W | P | R | B |



1 Y baban a anwyd ar Ddydd Nadolig.
2 Roedd y baban yn cysgu yn hwn.
3 Roedd hon yn disgleirio uwchben y stabl.
4 Gŵr Mair.
5 Y brenin creulon.
6 Roedd y doethion yn teithio ar yr anifeiliaid hyn.
7 Aur, --- a myrr.
8 Anifeiliaid y bugail.
9 'Peidiwch ag ----,' meddai'r angel.
10 Enw'r dref lle cafodd y baban ei eni.
11 Roedd raid i'r baban a'i rieni --- i'r Aifft.
12 '--------- yn y goruchaf i Dduw,' meddai'r angylion.
13 Sawl gŵr doeth ddaeth ag anrhegion?
14 'Ganwyd i --- heddiw Waredwr yn ninas Dafydd.'

Anfonwch eich atebion at y Gweinidog erbyn **31 Ionawr**, a bydd tocyn llyfr yn anrheg i'r ateb cywir cyntaf o'r het.

(Pos o *Hosan o Bosau Nadolig*, Myfanwy Sandham a Siân Lewis)

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth,
SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 9 Ionawr | Grŵp Gwreiddiau yn ailddechrau<br>am 10.15 o'r gloch yn festri'r Garn |
| 21 Ionawr | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 26 Ionawr | Oedfa'r Ofalaeth yng Nghapel y Garn,<br>dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch<br>Cyflwynir siec i elusen Beiciau Gwaed Cymru<br>Gwneir casgliad tuag at Uned Cemotherapi<br>Ysbyty Bronglais |
| 29 Mawrth | Oedfa'r Ofalaeth yng Nghapel Pen-llwyn<br>dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at Uned Cemotherapi<br>Ysbyty Bronglais |

**Mae ysgolion Sul yn cwrdd
yng Nghapel Seion,
yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor,
ac yng Nghapel y Garn, Bow Street.
Croeso cynnes i blant o bob oed –
holwch y Gweinidog am fanylion.**

## Plant yr ysgolion Sul yn paratoi ar gyfer y Nadolig



Dyma lun o rai o blant ysgol Sul Pen-llwyn yn paratoi at wasanaeth Nadolig i'w gynnal ar 15 Rhagfyr. Mae dau blentyn yn eisiau oherwydd salwch, ond yn gobeithio cymryd rhan ar y diwrnod. Bydd ieuenctid y capel yn cymryd at gyhoeddi'r emynau, ac athrawon yr ysgol Sul at y darlleniadau.

Dr Watcyn James fydd yng ngofal yr oedfa yn ei ffordd ddihafal ei hun. Edrychwn ymlaen at ddathlu'r Nadolig yn y modd gorau posibl a diolchwn i'r plant am eu ffyddlondeb bob Sul ac i'w rhieni am eu cymorth bob amser. Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni – byddwn yn cyfarfod am 2 o'r gloch ar y Sul fel arfer. Nadolig Dedwydd i bob un oddi wrth yr aelodau.

**Diolch i holl gyfranwyr a darllenwyr 'Gair o'r Garn'**
**am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn,**
**a dymunwn flwyddyn newydd fendithiol**
**i bawb ohonoch**



Plant Ysgol Sul Seion gyda'r cardiau N A D O L I G lliwgar wedi'u paratoi ganddyn nhw. Mae Matilda yn eisiau o'r llun.




Delyth Jones yn cyflwyno siec am £576 i Rhian a Bea, o Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais, sef elw Swper Cynhaeaf y Garn, a gynhaliwyd ar 13 Medi 2019

## Cymdeithas Chwiorydd y Garn yn Dathlu'r Nadolig

Agorwyd drws i'r Nadolig yn festri'r Garn ar y diwrnod olaf o fis Tachwedd pan gynhaliodd Cymdeithas y Chwiorydd eu bore coffi blynyddol.



I ddechrau'r dathliad torrodd y gweinidog, y Parch Watcyn James, y gacen adfent, a oedd yn rhoddedig gan Gartref Tregerddan mewn gwerthfawrogiad o wasanaeth gwerthfawr Kathleen Lewis i breswylwyr y cartref.

Trwy ddyfalwch Meinir Lowry a Gwenan Price roedd llond bwrdd o gynnyrch cartref danteithiol a maethlon ar werth, ochr yn ochr â sioe o addurniadau Nadolig crefftus a lliwgar o waith Dwysli Williams ac Ann Jones, a oedd hefyd ar werth.

Daeth nifer dda o gefnogwyr ynghyd i fwynhau paned, mins pei, darn o gacen a sgwrs, ac i gyd-bendroni uwchben lluniau hynod a chliwiau hynotach Iestyn Hughes am gestyll Cymru; Lowri James a Gweneira Williams gafodd fwyaf o atebion cywir. I orffen, tynnwyd y raffl a rhannu'r gwobrau amrywiol a niferus oedd wedi eu casglu a'u trefnu gan Kathleen Lewis a Nans Morgan. Rhwng popeth gwnaed elw anrhydeddus i'w rannu rhwng Capel y Garn ac elusen HAHAV.

Y dydd Mercher canlynol aeth y Chwiorydd i Glwb Golff y Borth i fwynhau eu cinio Nadolig. Diolch i Nans Morgan am drefnu hynny. Bydd ein cyfarfod nesaf ar 8 Ionawr 2020.







**Blwyddyn newydd dda?**

Carwn eich gwahodd, bob un ohonoch, i chwilio am gyfle yn eich cartref, i neilltuo amser ar 1af o Ionawr i offrymu gweddi. Gallwch ddefnyddio'r geiriau yma fel patrwm, neu gallwch eu gweddïo fel ag y maent.

Arglwydd, wrth i'r Flwyddyn Newydd wawrio rwy'n cyflwyno'i holl ddyddiau i ti. Dyddiadur gwag sydd o'm blaen a'i dudalennau'n lân a heb eu cyffwrdd.

Beth fydd fy rhan ar hyd ei misoedd maith? Er nad ydw i'n gwybod, Arglwydd, mi wn na ddaw unrhyw beth yn annisgwyl i ti. Felly, rwyf am gyflwyno'r flwyddyn ar ei hyd i ti.

Arglwydd, rwy'n gweddïo dros dy eglwys yng Nghymru. Rwy'n cyfaddef bod ei gwendid a'i chyflwr truenus gerbron y byd yn dristwch i'm henaid.

Arglwydd, a wnei di drugarhau wrthym. Ac, Arglwydd, rwyf am gyflwyno i ti Suliau'r flwyddyn yn enwedig. Rwyf am weddïo dros ein cynulleidfa – y bydd yn tyfu mewn gwres ac adnabyddiaeth ohonot. Ac rwyf yn dyheu y bydd pob Sul yn gyfle newydd i ni gwrdd â'n gilydd gyda thi.

Wrth droedio i dir newydd, gwn hefyd fy mod yn cario pob math o feichiau – agweddau, meddyliau, geiriau, profiadau niweidiol o'r gorffennol. Weithiau, mae yna bobl dwi wedi dal dig yn eu herbyn. Weithiau, mae yna bobl dwi wedi'i ffeindio'n anodd maddau iddynt. Weithiau, mae chwerwedd wedi bygwth fy nghaethiwo. Ar ddechrau'r flwyddyn newydd hon, Arglwydd, dwi am ollwng yr holl feichiau na allaf eu cario a'u gosod wrth dy groes:

> 'Mi dafla maich oddi ar fy ngwar ...'

Arglwydd, mae yna rai pethau o ngorffennol nad wyf am eu gollwng o'm cof, yn enwedig pobl.

Mae yna bobl rwyt ti wedi eu rhoi yn fy mywyd sydd wedi cyfoethogi fy mywyd – pobl na fyddwn wedi dymuno byw hebddynt, pobl dwi'n hiraethu amdanyn nhw, pobl dwi'n diolch i ti o hyd am eu cariad a'u hamynedd tuag ataf.

Rwy'n gweddïo dros fy nheulu, fy mhlant, fy wyrion, fy nghyfeillion, fy nghymuned. Rhoddaf bob un ohonynt i'th ofal tirion di.

Ac felly, fy Nuw, fy Ngwaredwr, fy Eiriolwr, caniatâ i mi ar ddechrau blwyddyn newydd fyw'r hyn a ddaw gan fod yn ymwybodol o'th bresenoldeb, dy gariad, dy ras, dy amynedd a'th ddaioni.

Er mwyn Iesu Grist a'i ogoniant.
Amen

## Gwreiddiau

Bydd y grŵp Gwreiddiau yn ailddechrau bore Iau, 9 Ionawr 2020, am 10.15 o'r gloch. Cewch baned a sgwrs i ddechrau, ac yna astudiaeth Feiblaidd a thrafodaeth dan arweiniad y Gweinidog. Beth am dro i mewn atom? Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl.



## Cofio WJ



Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Gwenda a theulu’r Parchedig W. J. Edwards, a fu farw ar 30 Medi. Cafwyd teyrngedau hael a niferus iddo, yn lleol ac yn genedlaethol, ac roedd y gynulleidfa luosog a ddaeth i’r gwasanaeth angladdol yng Nghapel y Garn, dan arweiniad ei Weinidog, y Parch Ddr Watcyn James, yn arwydd pellach o’r parch tuag ato, yn ogystal â diolchgarwch am y cyfan a gyflawnwyd ganddo. Cysegrodd ran helaeth o’i fywyd i weinidogaeth y Gair – yn ardaloedd Llanuwchllyn, Caerfyrddin a Machynlleth yn fwyaf arbennig. Gweithredodd yn llawn angerdd dros ei Arglwydd yn ogystal â’i genedl, a oedd mor agos at ei galon.

Roedd ganddo ddiddordeb ysol mewn pobl a’u cysylltiadau, a meddai ar gof diarhebol. Lluniodd golofn wythnosol i’r *Cyfnod* am dros ddeugain mlynedd a chyfrannodd at lu o gyhoeddiadau eraill dros y blynyddoedd.

Mewn erthygl dan y teitl ‘Yr Eglwys ar y Groesffordd’ yn rhifyn 18 Ionawr 1985 o’r *Faner*, mae’n gosod her i’r eglwysi ar ddechrau blwyddyn newydd. Mae ei eiriau’n dal mor amserol ar ddechrau 2020, ac fel teyrnged ‘Gair o’r Garn’ iddo, dyfynnir detholiad o’i erthygl yma:

Nid oes neb ystyriol a wad nad yw'r Eglwys Gristnogol yng Nghymru fel yng ngweddill gwledydd gorllewin y byd wedi cyrraedd croesffordd a bod yn rhaid iddi frysio i benderfynu beth ddylai ei swyddogaeth fod. …

Rhan o'r ddisgyblaeth yw gofyn y cwestiynau heb boeni gormod am ddod o hyd i'r atebion slic a chyfforddus. Tristwch y sefyllfa gyfoes yw amharodrwydd llawer o'r rhai sy'n mynychu capel ac eglwys i ofyn y cwestiynau. … A yw'r Eglwys yn mynd i edrych yn ôl ynteu edrych ymlaen? … A yw'r Eglwys yn mynd i edrych allan ar y byd neu i mewn arni hi'i hunan? A yw am ymfodloni bod yn gymdeithas fach gyfforddus sy'n lleihau yn gyflym neu a yw am edrych ar y lluoedd sydd wedi colli pob cysylltiad â hi? Y mae rhywbeth mawr o'i le ar gynulleidfaoedd mewnblyg sy'n gwneud dim ond meddwl am barhad yr achos yn y fan a'r fan gan wario'r holl adnoddau ar gynnal adeiladau mawr a diangen.

… Am ein bod mor brysur yn ceisio cadw'r drws ar agor, costied a gostied, aethom yn ddall a byddar i angen y gymdeithas o'n cwmpas. Ac y mae yna anghenion mawr yn y byd o'n cwmpas. …

A yw'r Eglwys yn mynd i gydymffurfio â'r byd neu a yw am lefaru'r gair sy'n anesmwytho? Siaradwyd llawer o ddwli … am berthynas yr Eglwys a gwleidyddiaeth gan anghofio mai gwaith y Cristion yw cyfieithu cariad a thrugaredd yn gyfiawnder cymdeithasol a gofal a chonsýrn dros bawb sydd ar lawr. 'The Church,' meddai John Henry Newman, 'was framed with the express purpose of interfering with the world.'

Ar ôl disgrifio mewn dau bennill yr olwg druenus ar 'Yr Eglwys', y mae Gwenallt yn gorffen ei gerdd ysgytwol gyda'r pennill hwn:

> Pe gofynnent i'r Anadl godi'r llifddorau
>    A mentro allan i'r afresymol fôr;
> Eu hangor yn ir, eu hwyliau yn hyderus,
>    A ffydd ar fwrdd, ffenestr a dôr:
> Hwy a gaent weled y Crist wedi Ei hoelio
>    Yn dechnegol ar Ei blwtoniwm Groes;
> Yn disgyn oddi arni; yn dofi'r dyfroedd
>    Ac yn tagu ystormydd niwclear ein hoes.

Beth am inni fentro o'r newydd … a pheidio poeni'n ormodol am yr 'afresymol fôr'? Fan honno mae'n lle ni ac nid yn ffidlan yn y pyllau llonydd a merfaidd.




Yn ystod yr oedfa fore Sul, 17 Tachwedd, cyflwynodd y Gweinidog dystysgrif arbennig i Vernon Jones i nodi dros 40 mlynedd o wasanaeth fel blaenor yng Nghapel y Garn. Cafodd Vernon ei ordeinio yn 1971 ac felly mae wedi rhoi gwasanaeth amhrisiadwy i'r Garn a thu hwnt am gyfnod o 48 mlynedd. Mae'n dda ei weld yn ôl yn addoli gyda ni o Sul i Sul, ac edrychwn ymlaen at gael ei gwmni am flynyddoedd eto i ddod.

## Grŵp Help Llaw Capel y Garn

Mae'r Grŵp yn cyfarfod am 2 o'r gloch ar brynhawn Mercher (ac eithrio pnawn Mercher cyntaf y mis). Mae croeso cynnes i chi ymuno â ni am baned a chlonc.

Fe fyddwn yn ddiolchgar am y canlynol:

- arian mân i'w gyflwyno i Water Aid;
- hen stampiau i elusen y deillion;
- hen sbectolau.

Rydym wedi cyflwyno siec o £110 i ward Cemotherapi Ysbyty Bronglais yn ddiweddar, ac mae'r aelodau yn gwau blancedi cof ar gyfer Ffrindiau Dementia.

Bydd ein cyfarfod nesaf bnawn Mercher, 15 Ionawr 2020, pryd y byddwn yn dechrau casglu at y Banc Bwyd lleol. Mae croeso i unrhyw un ddod â chyfraniad i'r Grŵp Help Llaw neu i'r capel.

## Capel y Garn – Ionawr

***Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams***

***I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones***
***Ann Jones***

5 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

8 Cyfarfod Chwiorydd y Garn am 2 o'r gloch
'Blas ar Batagonia' – Marian B Hughes

9 Grŵp Gwreiddiau'n ailddechrau am 10.15 o'r gloch

12 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Ddr John Tudno Williams

15 Grŵp Help Llaw yn ailddechrau am 2 o'r gloch

17 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'John Davies, Tahiti' – Y Parch Watcyn James

19 Oedfa gymun am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Gweinidog

20 Pwyllgor Swyddogion y Garn
yn festri'r Garn am 2 o'r gloch

21 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
yn festri'r Garn am 7 o'r gloch

26 Oedfa'r Ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o'r gloch
Cyflwynir siec i gynrychiolydd Beiciau Gwaed Cymru
Gwneir casgliad tuag at elusen yr ofalaeth am 2020,
sef Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais

## Capel y Garn – Chwefror

*Blaenor y mis: Bryn Roberts*

*I gyfarch wrth y drysau: Elizabeth Jones*
*Marian B Hughes*

2 Oedfa am 10 o’r gloch yng Nghapel Noddfa

5 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2 o’r gloch
‘Cymorth Cyntaf’ gyda Jane Leggett

9 Oedfa am 10 o’r gloch dan arweiniad y Gweinidog

16 Oedfaon dan arweiniad y Gweinidog:
oedfa gymun yn y Garn am 10 o’r gloch;
oedfa anffurfiol ym Methlehem, Llandre, am 5 o’r gloch

21 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch
Noson yng nghwmni Rhiain Bebb

23 Oedfa am 10 o’r gloch
dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths



Paratowyd gwasanaeth Dydd Gweddi’r Byd eleni gan Chwiorydd Cristnogol Zimbabwe ar y thema ‘Cod! Cymer dy Fatras a Cherdda’

## Capel y Garn – Mawrth

*Blaenor y mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Gruffydd Aled Williams*
*Eddie T Jenkins*

1 *Dydd Gŵyl Dewi*
Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog

6 Dydd Gweddi'r Byd

**Thema**
**Cod! Cymer dy Fatras a Cherdda**
Paratowyd y Gwasanaeth ar gyfer 2020
gan Chwiorydd Cristnogol Zimbabwe

8 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Elwyn Pryse

15 Oedfa am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Ddr Goronwy Prys Owen

20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7 o'r gloch
Dathlu Gŵyl Ddewi gyda Linda Griffiths
ym Methlehem, Llandre

22 Oedfa gymun am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Gweinidog

29 Oedfa'r ofalaeth yng Nghapel Pen-llwyn
dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais

## Cymdeithas Lenyddol y Garn

Agorwyd tymor y gaeaf ar 18 Hydref gyda darlith gan yr Athro Gerwyn Wiliams, Prifysgol Bangor, ar y testun ‘Cynan, Carlo a’r Cwîn’. Mwynhad pur oedd cael ein tywys yn wybodus drwy hanes a chael cyfle i gofio a rhyfeddu at rwysg ac uchelgais frenhinol y cyn-Archdderwydd ac awdur y cerddi swynol diymffrost rydyn ni mor gyfarwydd â nhw, megis ‘Mab y Bwthyn’.




Dr Rhodri Llwyd Morgan oedd y siaradwr yng nghyfarfod mis Tachwedd. Cafwyd cyflwyniad difyr ganddo am hanes adeilad eiconig yr Hen Goleg ar y prom yn Aberystwyth, y penseiri oedd yn gyfrifol am ei gynllunio a’r rhai fu wrthi’n ei adeiladu.

Yna, aeth Rhodri ymlaen i sôn am y cynlluniau cyffrous ac uchelgeisiol sydd ar y gweill gyda’r bwriad o roi ‘Bywyd Newydd i’r Hen Goleg’. Y gobaith yw sicrhau’r cyllid i ddatblygu orielau, llety moethus, unedau busnes, yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer staff a myfyrwyr y brifysgol a’r gymuned leol.

## Capel Pen-llwyn

Ar 17 Tachwedd, daeth y Parch Elwyn Pryse atom i Ben-llwyn am y tro olaf, gan iddo benderfynu rhoi'r ffidil yn y to ar ôl tua thrigain a deg o flynyddoedd yn pregethu'r efengyl. Daeth yma yn gyntaf fel stiwdent ar wahoddiad yr Henadur Isaac Lewis, oedd yn ysgrifennydd y cyhoeddiadau ar y pryd.

Dameg yr Heuwr oedd dan sylw y tro hwn, o'r 8fed bennod o Efengyl Luc, a'r llawenydd wrth i ychydig o'r had ddisgyn ar dir da. Diolch am y gweddill ffyddlon ar hyd y blynyddoedd, a diolch i Dduw am ei ffyddlondeb a'i ras tuag atom.

Hoffem fel eglwys ddiolch yn fawr i'r Parch Elwyn Pryse am ei wasanaeth ar hyd y blynyddoedd a dymuno ymddeoliad hapus a bendithiol iddo. Cawn ei gwmni yn yr astudiaeth ar fore Iau, a'i gyfraniad bob amser yn werthfawr dros ben.

Cafwyd paned ac amser i gymdeithasu ar ôl yr oedfa, cyn iddo gael croeso twymgalon gan ddeiliaid y tŷ capel, ac yna ymlaen ar ei daith i Lwyn-y-groes a'r Dyffryn yn yr hwyr.

*Heulwen Lewis*



## Byw'n wyrddach / Gwrthryfela yn erbyn difodiant

Pa un bynnag yw'r teitl ddewiswn ni, yr un yw'r dasg i ni, bobl gyfforddus ein byd, sef newid ein ffordd o weld ein hunain mewn perthynas â'r amgylchedd. Y rhan amlaf mae hynny'n dod i lawr i rywbeth mor syml â gwahaniaethu rhwng angen ac eisiau, h.y. ai eisiau rhywbeth rydw i neu a oes ei angen arna i? Ond does dim byd yn syml mewn gwirionedd – beth yw'r gwahaniaeth rhwng eisiau ac angen? Pryd mae eisiau yn mynd yn angen, a pha mor aml mae angen yn ffordd o gyfiawnhau eisiau?

Mae dewisiadau, wrth reswm, yn gwahaniaethu yn ôl patrwm bywyd unigolion. Ond, o dderbyn a chofio'i bod hi'n argyfwng ar ein hamgylchedd gyda'r hinsawdd yn newid a rhywogaethau'n wynebu difodiant, gallai'r cwestiwn angen/eisiau fod yn ganllaw defnyddiol wrth ddod i benderfyniad am bob math o bethau bob-dydd, e.e.

- **Teithio** – Wrth baratoi ar gyfer taith: "Oes angen i fi wneud y daith yma? Allwn i ei chyfuno â thaith arall? Allwn i fynd ar fws neu drên? Allwn i gerdded?"
  (Mae'n werth cofio bod cerdded yn wobr ddwbwl – yn ogystal â chynhyrchu llai o lygredd a defnyddio llai o danwydd, mae hefyd yn cryfhau'r corff ac yn ei gadw'n iach.)

- **Gwres a golau** – Ydw i'n gorgynhesu'r tŷ?
  Oes angen cynhesu pob stafell a ninnau ddim ond yn defnyddio un neu ddwy? Allwn i ostwng y gwres o 2 neu 3 gradd?

  Ydy pob golau nad yw'n hanfodol wedi ei ddiffodd, gan gynnwys y goleuadau bach ar y peiriant golchi dillad, y cyfrifiadur, y teledu?

  Ydw i'n defnyddio'r mathau mwyaf darbodus o fylbiau golau?

- **Plastig** – Wrth siopa – oes angen lapio, yn wir boddi, llysiau a ffrwythau mewn plastig? Mae'n hawdd gwrthod eu prynu a rhoi gwybod pam i reolwr y siop. Gallai hynny newid arferion siopau.


- Defnyddio siopau sy’n cynnig gwasanaeth ail-lenwi ar gyfer sebonau golchi o bob math.

  Prynu perlysiau / sbeisys / powdrau coginio mewn siop sy’n eu gwerthu wrth eu pwysau a’u pacio mewn bagiau papur. Hawdd eu trosglwyddo wedyn i botel fach wydr neu focs cardfwrdd.

  Mae barrau sych o sebon neu siampŵ llawn cystal â sebon/siampŵ hylifol mewn potel blastig, a brws dannedd bambw llawn cystal ag un plastig.

- **Dillad** – Mae dillad o ddefnyddiau synthetig yn gyfleus, yn hardd a lliwgar, ac yn gymharol rad, ond yn cyfrannu at y mynyddoedd o wastraff plastig amhydradwy sy’n llygru’r môr. Gwiriwch y defnydd a chofio’r cwestiwn angen/eisiau cyn ildio.

Dim ond codi cwr bach bach o’r llen mae’r awgrymiadau yma. Am gloddfa gynhwysfawr o wybodaeth, syniadau ac awgrymiadau ymarferol a diddorol, hen a newydd, cyfleus a radical, darllenwch y llyfr ***Gwyrddach***, gan Mari Elin Jones. Mae’r gyfrol fechan hylaw hon yn galw i gof neges Dewi Sant, “Gwnewch y pethau bychain”, ac yn mynd ymlaen, gam wrth gam, i’n hysbrydoli i gyflawni newidiadau mawr, pellgyrhaeddol. Mae’n ddifyr iawn, yn hynod ddeniadol, ac yn llawn gwybodaeth gyfoes a pherthnasol.




Gwyrdd fo ein byd ni!

*Gwyrddach* gan
Mari Elin Jones;
cyhoeddwyd gan Wasg
y Bwthyn, pris £9.95

*Llinos Dafis*

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Estynnodd Eiriona Metcalfe groeso i bawb i festri capel Rehoboth brynhawn Mawrth, 10 Medi, ar ddechrau tymor arall. Alice Briggs, Curadur Cynorthwyol yn Amgueddfa Ceredigion, oedd y wraig wadd, a siaradodd am yr arddangosfa 'Defaid' a fu ymlaen yn yr Amgueddfa yn gynharach eleni. Eglurodd fod sôn am ddefaid yn mynd yn ôl am ganrifoedd, a bod y symbol o ddefaid mewn crefydd yn bwysig gydag ymadroddion megis 'Y Bugail Da' a dameg y Ddafad Golledig yn adnabyddus i bawb. Dangosodd nifer o luniau gan artistiaid hen a chyfoes gan egluro sut yr aethant ati i ddarlunio defaid. Diolchwyd iddi am gyflwyniad hynod o ddiddorol, ac yna mwynhawyd te a lluniaeth wedi eu paratoi gan Mai Leeding a Myfanwy Rowlands.

Yn y cyfarfod ar 8 Hydref estynnwyd croeso i Eirian Jones, Llangeitho, sy'n gweithio fel Golygydd Saesneg yng ngwasg y Lolfa. Bu'n sôn am Margaret Jones a aned ym mis Mawrth 1842 yn Rhosllannerchrugog, ac a adwaenid fel 'Y Gymraes o Ganaan' gan iddi gyhoeddi cyfres o'i llythyrau at ei rhieni o Baris, Jerwsalem a Beirut yn y gyfrol *Llythyrau Cymraes o Wlad Canaan* yn 1869. O 1870 ymlaen, bu'n teithio ar hyd a lled Cymru yn darlithio am ei phrofiadau yng Nghanaan. Yna bu'n gweithio fel cenhades ym Moroco am dair blynedd, ac wedi hynny cyhoeddodd y llyfr *Moroco, a'r hyn a welais yno* yn 1883. Teithiodd o amgylch yr Unol Daleithiau am ddwy flynedd yn darlithio am Ganaan, cyn ymfudo i Queensland, Awstralia, yn 1889 a phriodi James Josey, dyn cyfoethog iawn. Roedd Margaret wedi teithio'n bell o'i chartref tlawd yn y Rhos, i ogoniant ystad brydferth yn Queensland, ac yno y bu farw ym mis Hydref 1902 yn 60 oed. Diolchwyd i Eirian Jones am draddodi hanes diddorol ac anghyffredin Margaret Jones, ac yna mwynhawyd te a sgon wedi eu paratoi gan Ann Humphreys.

Beti Griffiths, Llanilar, oedd y wraig wadd yn y cyfarfod ar 12 Tachwedd, ac nid oedd angen ei chyflwyno i'r chwiorydd gan ei bod yn wraig brysur ac adnabyddus sy'n dod i gapel Rehoboth i bregethu yn achlysurol.

Cyhoeddwyd hunangofiant Beti Griffiths, *Rho Imi Nerth*, ym mis Mai eleni, ac yn ystod ei sgwrs cawsom ganddi ychydig o hanes ei theulu, ei bywyd cynnar yn Lledrod, ei dyddiau ysgol a choleg, a'i gyrfa fel athrawes a phrifathrawes, a'r hanesion hynny yn cael eu hadrodd mewn dull ysgafn a ddeuai â gwên i'r wyneb.

Bu Beti'n weithgar iawn yn ei chymuned fel Prifathrawes Ysgol Gynradd Llanilar, y Cwrdd Plant yn y pentref, ynghyd â nifer o weithgareddau eraill, a hefyd treuliodd ugain mlynedd yn gwasanaethu fel Ynad Heddwch. Diolchodd Eiriona i Beti am brynhawn difyr dros ben, a mwynhawyd te a bisgedi wedi eu paratoi gan Eirlys Jones gyda chyfraniad gan Non Griffiths.

*Carys Briddon*

## Lansio EP Ffion Evans

Nos Iau, 5 Rhagfyr, yn ystod Ffair Nadolig y Llyfrgell Genedlaethol, lansiwyd EP cyntaf Ffion, *Ar Ben fy Hun*.

Mae'n cynnwys chwe chân bersonol iawn wedi'u hysgrifennu a'u perfformio gan Ffion. Ei gobaith yw rhannu ei phrofiadau a'i theimladau mewn ffordd y bydd pobl eraill yn gallu uniaethu â nhw a chael cysur ac ysbrydoliaeth ohonynt. Dyluniwyd clawr lliwgar y CD gan Sara Lleucu, un o ffrindiau gorau Ffion.





Y grŵp Bwca yn perfformio yn lansiad EP Ffion Evans
yn y Llyfrgell Genedlaethol

Mae'r CD ar werth am £7, gyda £2 yn cael ei roi tuag at apêl leol Llandre at Eisteddfod Genedlaethol 2020. Cysylltwch â Ffion am gopi drwy ebostio: bwcacymru@outlook.com, ac mae'r caneuon hefyd ar gael ar Spotify, Apple Music a'r llwyfannau arferol. Pob dymuniad da, Ffion!

**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Delyth Davies, Pen-llwyn

Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau,
Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **8 Mawrth** i'r golygydd:
Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662
marian_hughes@btinternet.com